Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Dachwedd 2017

1 Presennol – John Jones (Cadeirydd) Anwen Humphreys Clifford Williams – Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans – Prenteg, Richard Parry Edward Evans – Bryncir, Amanda N Owen Megan Ll Williams – Golan, Dafydd Thomas Eifion Williams – Penmorfa, Huw Pritchard Gareth Jones - Pentrefelin. John Richard Jones (aelod o'r cyhoedd)

2 Ymddiheuriadau – Delyth Evans, Gwenno Huws, Maldwyn Owen, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

3 Ddim yn bresennol – neb.

4 Datgan Buddiant – Richard Williams Eitem 15a

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 5/10/17. Dafydd Thomas yn datgan eu cywirdeb ac Anwen Humphreys yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Materion Priffyrdd – Llythyr yr Adran Priffyrdd 24/10/17 -

Prenteg - yr Adran Briffyrdd o'r farn fod tystiolaeth ddigonol ar ffeil yn profi fod y mater wedi cael ystyriaeth ac ateb rhesymol.
Coed rhwng Llwyn Onn ac Argoed Garndolbenmaen – Adran Priffyrdd am gysylltu gyda'r Uned Bioamrywiaeth i drafod y mater.
Pentrefelin – bydd sylw yn cael ei roi i'r coed wrth tŷ Penllyn.
Golan - Gwyneb y lôn yn dangos traul. Oherwydd diffyg cyllid, mae'r Adran Priffyrdd yn gwynebu sefyllfa anodd iawn ac mae rhestr o waith ail-wynebu yn aros. Am gadw golwg ar gyflwr y lôn yn nhrefn yr archwiliadau rheolaidd.

[redacted] Eitem caeëdig.

Rhybudd cau ffordd ger Cysgod y Graig Tremadog - Rhif ffôn y Contractwr ar y rhybudd a dderbyniwyd. Gwilym Evans am gysylltu.

7 Mynwentydd

[redacted]

[redacted] Eitem caeëdig.

Atgyweirio wal Mynwent Cwm Pennant - Derbyniwyd pris o £125 gan Idris. Penderfynwyd gofyn i Dylan Edwards am bris.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr ger Canolfan Golan - gwaith wedi ei gwblhau i safon uchel. Clerc i yrru llythyr o ddiolch at Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Angen torri gwair a changhennau ar y llwybr - Clerc i gysylltu gydag Emyr Wyn Jones i'w holi am bris.

Llwybr Cyhoeddus Capel Horeb – heb gael ei dorri. Clerc i gysylltu gyda Dylan Edwards.

9 Adroddiad Pentrefi –

Penmorfa

Adroddodd Dafydd Thomas ei fod wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â cheir yn parcio ar y chwith ac yn achosi problemau i'r bysiau.

Angen ysgubo'r lôn yn y mannau canlynol –

Garndolbenmaen – Bro Pedr i Swn y Nant.

Pentrefelin – Lôn Tabor i lawr i Pentrefelin.

Prenteg.

Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

10 Pont y Traeth

Llythyr a dogfennau yn ymwneud a'r ddamwain ar Bont y Traeth wedi eu gyrru at Osian Richards, Adran Ymgynghorol, Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd ateb y byddai'r mater yn cael ei drafod mewn cyfarfod pontydd. Adroddodd Gwilym Evans ei fod wedi cysylltu gydag Osian Richards a chafodd wybod y bydd y Pennaeth Priffyrdd yn ymateb dydd Llun.

11 Cae Chwarae Penmorfa - Penderfynwyd trafod torri gwair Cae Chwarae Penmorfa wrth drafod llwybrau cyhoeddus.

12 Gwefan – Yn dilyn y cyfarfod nos Iau 26ain o Hydref, mae'r canlynol wedi ei wneud –

- Cywiriadau i'r cynnwys wedi eu gyrru at Faris Raouf Cymru1.
- Cysylltu gyda Mr Raymond Harvey, Swyddog Etholiadau, Cyngor Gwynedd i ofyn am fapiau o'r wardiau.

Penderfynwyd cydnabod y gwaith tynnu lluniau a wnaed gan Gwen Owen a Sioned Owen. Bydd y swm yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Clerc i yrru'r cofnodion, dyddiadau'r cyfarfodydd a chau'r Agenda at Faris Raouf.

13 Archwiliad Allanol-

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ar y materion yn codi o'r archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017. Cytunwyd ar y camau gweithredu i'w cymryd. Penderfynwyd ysgrifennu at Dafydd Elis Thomas AC i fynegi pryder am ofynion yr Archwilwyr Allanol. Richard Parry yn cynnig a Richard Williams yn eilio.

14 Mast Telathrebu Fferm Pen y Gaer, Mynydd Glas, Garndolbenmaen

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan un o drigolion Garndolbenmaen yn gofyn am sylwadau ar y cwestiynau a yrrwyd at y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r cais cynllunio uchod. Nid oedd yn bosib ymateb cyn dyddiad cau y cais cynllunio. Penderfynwyd ei gynghori i gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol am fod y cais bellach wedi cael ei ganiatāu.

15 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – dim.
b Adolygiad o'r sector Cyngor Cymuned a Thref yng Nghymru.

Gohebiaeth ychwanegol – er gwybodaeth

c Newidiadau i etholiadau seneddol yng Nghymru.
ch IRPW – adroddiad drafft.

15a Cynllunio

Rhestrau 6/10, 16/10, 30/10.

Ceisiadau Cynllunio

C17/0914/36/LL Dymchwel estyniad cefn bresennol ynghyd a chodi estyniad cefn o'r newydd a balconi. Llwyn Onn Garndolbenmaen, Gwynedd. LL51 9RX Dim gwrthwynebiad.

Ychwanegwyd y 2 gais canlynol derbyniwyd 28/10/17

NP2/16/54B Dymchwel estyniad cefn ac ochor ac ail adeiladu Tyddyn Drain, Garndolbenmaen. LL51 9UJ Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/T151C Codi estyniad ail lawr Garreg Wen Fach, Cwm Pennant. LL51 9AX Gwrthwynebu ar sail gwneuthuriad yr ail lawr. Dylid defnyddio rhywbeth sy'n cydweddu a'r amgylchedd.

16 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian:

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 225.64
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 56.40
Swyddfa Archwilio Cymru	= £ 254.25
Y Ffynnon	= £ 36.00
Yr Wylan	= £ 22.50
Ychwanegwyd	
Gwasg y Bwthyn	= £ 7.20

Derbyniadau – Pritchard & Griffiths £110.00

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £20,272.91 Cyfredol - £7318.27

17 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Llwybr Cyhoeddus Golan
- Materion Priffyrdd
- Ceisiadau Cynllunio